**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-04-02(p3)**

**Dyddiad:** 12 Mehefin 2002

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Y Gweithgor Ehangu

**Pwrpas**

1. I adrodd yn ôl ar y trydydd cyfarfod o’r Gweithgor Ehangu a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15 Mai 2002.

**Argymhelliad**

2. Aelodau i gefnogi’r cynllun gweithredu ar Ehangu, atodedig fel **Doc 1**.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2001, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar y cylch gwaith drafft am weithgor i ystyried materion sy’n gysylltiedig ag ehangu. Mae’r Gweithgor Ehangu hwn wedi cyfarfod deirgwaith erbyn hyn – 8 Hydref 2001, 16 Ionawr 2002 a’r trydydd cyfarfod hwn ar ddydd Mercher 15 Mai 2002.

**Adroddiad ar Gyfarfod y Gweithgor Ehangu, 15 Mai 2002.**

4. Cyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) bapur yn amlinellu eu hymateb i ddiwygio Cronfeydd Strwythurol yr UE. Tynnodd y Gymdeithas sylw at anghenion yr awdurdodau gwledig: cytunodd aelodau’r Grwp ei fod yn bwysig i bob lobïwr allweddol leisio eu barn ym Mrwsel. Ac fe fyddai yr un mor bwysig i bolisïau eraill y Comisiwn sy’n effeithio’r rhanbarthau, megis CAP, gael eu hystyried wrth ddiwygio’r cronfeydd strwythurol.

5. Rhoddodd papur WGE(03)01 ddiweddariad ffeithiol i’r Grwp ar yr Adroddiad Cynnydd ar Gydlynu Economaidd a Chymdeithasol. Yn dilyn yr adroddiad hwn, cynhaliwyd gweithdai cydlynu ym Mrwsel ddiwedd Mai, lle y cafwyd cynrychiolaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunodd y Cadeirydd i roi adroddiad ar y gweithdai mewn cyfarfod o’r Gweithgor Ehangu yn y dyfodol.

6. Dywedodd Katherine Himsworth o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth y Grwp am ei chyfraniad diweddar at Brosiect Gefeillio Cronfa Strwythurol yn Rwmania.

7. Cafwyd crynodeb ym mhapur WGE(03)02 o'r gweithgareddau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r gwledydd sy'n Ymgeiswyr ers cyfarfod diwethaf y Grwp ym mis Ionawr.

8. Rhoddodd bapur WGE(03)03 y cyfle i'r Grwp ystyried y cynllun gweithredu dros ehangu yng Nghymru yn y dyfodol, a lluniwyd ef i adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan y Grwp a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Mae'r cynllun yn atodedig yn Doc 1.

**Cydymffurfio**

9. Mae Rheol Sefydlog 15 yn cynnwys gweithgareddau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Sefydlwyd y gweithgor ar sail pwerau'r Cynulliad dan adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'n bwyllgor ymgynghorol anffurfiol a'i brif dasg yw adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Cysylltwyd â Swyddog Cydymffurfio y Cynulliad yn y gorffennol ac roedd yn fodlon gyda'r agweddau ar gydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad o ganlyniad i'r materion sy'n cael eu codi yn yr adroddiad hwn.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**